

Brodyr Cwmdyllest yn disgleirio Llwyddiant i weinidog a'i frawd



Huw Thomas

Yn nhraddodiad gorau y cawr hynny o Undodwr – Dafydd Dafis, Castellhywel – mae'r Parchedig Wyn Thomas wedi llwyddo i gyflawni tipyn o gamp gan gyfuno dwy swyddogaeth bwysig – fel gweinidog a ffarmwr.

Mae Wyn yn adnabyddus i Undodiaid yn y Smotyn Du a thu hwnt fel gweinidog ar gapeli Pantydefaid, y Graig, Bwlch yfadfa, Llwynrhydowen, Cwmsychbant a Chapel y Bryn.

Mae hefyd yn hanu o linach o ffermwyr, wrth gwrs, gyda'r fferm deuluol yng Nghwmdyllest, Pontsian.

Anrhydedd

Ac mae Wyn wedi ei anrhydeddu am ei gyfraniad at amaethyddiaeth yn ddiweddar, drwy gael ei goroni yn Ffarmwr Ifanc y Flwyddyn gan fudiad y Clybiau Ffermwyr Ifanc yng Ngheredigion.

Mae'r gweinidog ifanc 27 oed yn naturiol yn falch iawn o dderbyn yr anrhydedd.

"Mae'n ffrainc fawr i gael fy mhenodi'n Ffarmwr Ifanc y Flwyddyn. Mae 'na ddyletswyddau sy'n dod gyda'r wobwr fydd yn golygu bod y flwyddyn nesa' 'ma yn un brysur dros ben – achos bydd rhaid i fi fod yn rhyw fath o lys-gennad ar gyfer y mudiad," meddai.

Bydd yn dechrau ar ei ddyletswyddau yn swyddogol yn Rali'r Sir ar 22 Mai. A thra ei fod e'n edrych ymlaen at y flwyddyn sydd o'i flaen, mae'n sicrhau aelodau ei chwe chapel y bydd yn parhau i roi'r un sylw ag arfer i waith yr enwad a'r capeli.



Parchedig Wyn Thomas

"Rwy'n mwynhau'r weinidogaeth yn fawr, ac fe fyddai'n parhau i roi yr un ymdrech i'r gwaith dros y flwyddyn nesa'," meddai. "I ddweud y gwir, mae'r gwaith fydda i yn ei wneud fel Ffarmwr Ifanc y Flwyddyn yn ddigon tebyg i'r weinidogaeth. Mae lot o ymwneud gyda phobl, ac rwy' wrth fy modd gyda hynny."

Llwyddiant teuluol

Ac mae'r misoedd diwetha' wedi bod yn gyfnod llwyddiannus i'r teulu hefyd. Mae brawd Wyn – Huw – hefyd wedi ei benodi i swyddogaeth bwysig gan yr enwad Undodaidd.

Huw fydd Trysorydd Anrhydeddus yr enwad ar draws Gwledydd Prydain. Ac, mae ganddo'r profiad angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaeth.

Yn ei waith bob dydd fe yw Pennaeth Busnes a Chynllunio yn yr Ysbyty Frenhinol Unedig yng Nghaerfaddon (Bath). Graddiodd o Brifysgol Rhydychen ddeng mlynedd yn ôl.

Mae'n briod gyda Vicky, ac mae ganddyn nhw fab bach, Owen Hedd. Maen nhw'n byw yng Ngwlad yr Haf (Somerset).

Mae'n siwr fod darllenwyr Yr Ymofynnydd i gyd yn hynod o falch i glywed am llwyddiannau'r ddau frawd ac yn dymuno'n dda iddyn nhw.

Dylid nodi hefyd mai un o aelodau un o gapeli Wyn – Teleri Morris-Thomas o Gapel y Graig - fydd Morwyn i Frenhines Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion am y flwyddyn nesaf. Longyfarchiadau mawr iddi hi hefyd.

‘Yma i helpu’: Neges Prif Swyddog y GA, Derek McAuley

“Rwy’n caru Cymru.” A dwi ddim yn dweud hynny i ennill cefnogaeth Undodiaid Cymru. Rwy’ wir yn teimlo hynny. Rwy’ wedi byw yng Ngogledd Orllewin Lloegr am dros 20 mlynedd, gyda’r ffin â Chymru ond awr bant. Yng nghanol y 90au ro’n i’n mynd yn rheolaidd i Theatr Clwyd, ac yn ddiweddarach rydym ni wedi bod yn ymweld â Harlech yn yr haf, ac yn mwynhau godidogrwydd Eryri hefyd – y golygfeydd, y cerdded, y traethau a’r bwyd da.



Cafodd mam fy mhartner ei geni i deulu o Grynwyr yng Nghaerdydd ac ym mis Mehefin fe gawson ni benwythnos yng Ngheredigion i ddathlu penblwydd ei fodryb yn 80 oed. Ro’n i’n ymwybodol fod y Smotyn Du gerllaw, ac fe aeth y Parchedig Cen Llwyd â ni ar daith o amgylch y capeli ar fore Sadwrn. Roedd hyn yn hynod ddiddorol ac fe wnaethon ni ymweld â Siop y Smotyn Du yn Llanbed hefyd, a diolch i Cen am fod yn dywysydd i ni.

Rwy’n gobeithio bod hyn wedi fy helpu i ddysgu mwy am Undodiaeth yng Ngheredigion ardal sydd â chynifer o Undodiaid mewn cylch bach. Mae’r gymuned a’r iaith hefyd yn bwysig.

Dwi ddim wedi bod i ranbarth De Ddwyrain Cymru eto, ond o weithio gyda Lis Dyson-Jones ar y Pwyllgor Gwaith, mae gen i syniad o’r heriau a’r cyfleoedd sy’n wynebu cynulleidfaoedd yn yr ardal.

Mae’r GA yn dathlu amrywiaeth ymhlith yr aelodaeth a’r cynulleidfaoedd. Rydym ni’n wahanol mewn nifer o ffyrdd. Mae gweithredu cymdeithasol yn chwarae rhan amlwg mewn nifer o’n capeli a’n eglwysi, ac mewn rhai eraill mai digwyddiadau cymdeithasol yn bwysig.

Mae rhan allweddol gan ranbarthau Cymru i’w chwarae yng ngwaith y GA, ac mae’ch angen chi ar y GA. Rydym ni’n cynnig cefnogaeth i gapeli yn nhermau y weinidogaeth, addysg, hyfforddiant a materion cyhoeddus a chyfathrebu. Mae gennym ni Adran Gymraeg ac rwy’n falch ein bod ni wedi bod yn gweithio gyda’r Mudiad Undodaidd yng Nghymru i weld sut y gellid datblygu yr agwedd yma.

Rwy’ wedi bod yn fy ngwaith fel Prif Swyddog am rai misoedd nawr, ac mae wedi bod yn bleser cyfarfod gyda phobl newydd yn Lloegr, yr Alban a Chymru. Rwy’n edrych ymlaen at ymweld gyda Chymru yn rhinwedd fy swydd yn y dyfodol agos. Mae Pencadlys yr Undodiaid yma i weithio dros Undodiaid i gyd, ac mae hynny yn cynnwys yr aelodau yng Nghymru. Os ydych chi am unrhyw fath o gymorth, cofiwch gysylltu, ac fe gawn ni weld beth allwn ni wneud gyda’n gilydd.

Derek McAuley, Prif Swyddog, Cynulliad Cyffredinol (GA) yr Undodiaid a’r Eglwysi Rhyddion

Mae popeth yn fwy yn America....



Joel Osteen a'i wraig, Victoria

Ers degawdau ry'n ni wedi bod yn clywed, yn darllen ac yn gweld bod cynulleidfaoedd ar drai yng nghapeli Cymru, ond mae'n ymddangos nad felly mae hi yn yr Unol Daleithiau.

Mewn gwlad lle mae'r traddodiad Efyngylaidd yn gryf gyda phregethwyr fel Billy Graham a Jimmy Swaggart wedi dod yn ffigurau amlwg mewn cymdeithas, mae'n ymddangos mai'r seren newydd yw gweinidog o'r enw Joel Osteen.

Mae'n cael ei adnabod fel "America's pastor". Yn ddyngolygus, carismataidd, 46 oed, mae'n enwog ar draws yr Unol Daleithiau fel awdur 'bestesellers' crefyddol, ac yn wyneb cyfarwydd ar rai o raglenni teledu mwya' poblogaidd y wlad.

Mae ganddo wefan gynhwysfawr sy'n cynnwys

darllediadau proffesiynol slic, ac mae'r dyn o linach o Efyngylwyr wedi denu sylw ar lefel byd-eang yn ddiweddar.

Roedd ei dad, John Osteen, yn weinidog Efyngylaidd, ond tan yn gymharol ddiweddar, doedd dim diddordeb gan y mab i ddilyn ôl troed y tad. Yna yn 1999, ac yntau'n 35 oed, fe benderfynodd Joel Osteen gamu i'r weinidogaeth.

Roedd ei dad yn enw adnabyddus mewn cylchoedd Efyngylaidd ac yn gyfrifol am adeiladau Eglwys Lakewood yn Houston, Texas ac yn pregethu i filoedd o bobl. Ond, mae'r mab wedi datblygu ar y sylfaen wnaeth y tad ei gosod, ac erbyn hyn mae'n pregethu'n rheolaidd i dorf o 16,000 yn Lakewood – eglwys sy'n ymdebygu yn fwy i stadiwm chwaraeon nag addoldy traddodiadol.

Mae Osteen yn pregethu yno bum gwaith yr wythnos a'r lle'n llawn bob tro. Gyda sgriniau fideo enfawr, sioe oleuadau a cherddoriaeth gyfoes, nid gwasanethau cyffredin mo'r rhain. Ond, maen nhw'n sicr yn boblogaidd.

Mae'n debyg nad yw Joel Osteen ei hun yn floeddiwr na'n bregethwr tân a brwmstan. Mae ei arddull wedi cael ei disgrifio fel "tawel, ond effeithiol".

Ac yn yr Hydref, bydd modd i bobl ym Mhrydain geisio darganfod cyfrinach llwyddiant Joel Osteen, wrth iddo fe bregethu yn Arena yr O2 yn Llundain. Mae disgwyl y bydd miloedd yno...a phwy a wŷr, efallai y bydd ambell i Undodwr yn eu plith, wedi eu gyrru gan chwilfrydedd. Beth am drefnu bws o'r Smotyn Du.....?

'Tad y We' yn Undodwr

Fel arfer does dim llawer o sôn am Undodiaeth yng nghylchgrawn y 'Cristion' – er fod 'na erthyglau digon diddorol yn ymddangos rhwng cloriau'r cyhoeddiad.

Ond yn y rhifyn cyfredol o'r cylchgrawn (Mawrth/Ebrill 2010) roedd un cyfeiriad diddorol iawn at Undodwr dylanwadol iawn.

Enw hwnnw oedd Syr Tim Berners-Lee. Pwy yw e', a pham ei fod e'n wŷr dylanwadol? Wel, Tim Berners-Lee yw'r dyn sy'n cael ei adnabod fel 'Tad y we fyd-eang'. Fe ddyfeisiodd y we, i bob pwrpas, a hynny tra'n gweithio fel gwyddonydd gyda CERN – y corff ymchwil niwcliar – yng Ngeneffa yn y Swisdir.

Erbyn hyn mae dros BILIWN o gyfrifiaduron wedi eu cysylltu i'r we, ac mae disgwyl i'r ffigur hynny ddyblu erbyn 2014.

Cafodd Tim Berners-Lee ei eni a'i fagu yn Lloegr. Roedd e'n aelod o Eglwys Loegr, mae'n debyg, ond fe drodd ei gefn ar yr Eglwys yn ei ardegau. Wedi iddo fe a'i deulu symud i America, ymunodd Tim Berners-Lee gyda mudiad Undodaidd yr Unitarian Universalist Association. Conglfaen cred yr UUA yw'r rhyddid i chwilio'n gyfrifol am ystyr a gwirionedd – sy'n cydfynd, wrth gwrs, gydag athrawiaeth Undodiaeth yng Ngwledydd Prydain fel 'crefydd rhyddid meddwl'.



Syr Tim Berners-Lee, dyfeisiwr y we

Yn ddiweddar cafodd Tim Berners-Lee ei benodi gan y Prif Weinidog, Gordon Brown, i oruchwylio prosiect i roi mwy o ddata'r llywodraeth ar y we – fel rhan o bolisi 'rhyddid gwybodaeth' y llywodraeth. Addas iawn, felly, mai Undodwr sydd â'r cyfrifoldeb am wneud hynny!

ALLTYBLACA

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Margaret Doris Davies gynt o Pleasant View a Ffoshelyg, Alltyblaca. Bu farw yng nghartref Anedd, Llanybydder, ar ddydd lau 21 o Ionawr 2010 wedi cystudd hir yn 84 mlwydd oed. Mam annwyl Eleri a Lynwen a'r diweddar Jeanette, mam yng nghyfraith Lloyd a Martin, yn famgu a hen famgu. Roedd gwasanaeth preifat yn y capel dan ofal ei gweinidog, y Parchedig Cen Llwyd, a'r Parchedig Goronwy Evans, gyda Ceinwen Roach wrth yr organ. Bu Doris yn aelod ffyddlon a gweithgar am flynyddoedd maith.

BRONDEIFI

Ymweliad Sion Corn

Bu'r hen ŵr yn garedig a hael iawn eto gan ymweld gyda disgybion (a rhai hŷn hefyd) yr Ysgol Sul ar ddydd Sul, 13eg Rhagfyr. Cyn derbyn eu anrhegion gan Sion Corn am fod yn ffyddlon gydol y flwyddyn, cafwyd perfformiadau graenus iawn gan y plant a chafwyd te parti blasus hefyd a oedd wedi ei baratoi gan y rhieni a'r athrawon.

Tywydd Anffafriol.

Oherwydd yr eira a'r rhew dros fisoedd y gaeaf bu rhaid canslo rhai o'r gwasanaethau, y cyntaf ohonynt oedd y gwasanaeth teuluol fore'r Nadolig. Roedd yn chwithig iawn peidio â mynd i'r gwasanaeth traddodiadol yma ond braf oedd gweld rhai o'r plant lleiaf wedi dod gyda'u hoff degan y Sul canlynol.

Oherwydd y tywydd garw gohiriwyd gwasanaeth cynta'r flwyddyn newydd hefyd tan yr 17eg o Ionawr ond roedd yn werth yr aros a chafwyd sylwadau ac addunedau diddorol gan Mrs Mary Jones, Mrs Gwenda Davies, Mrs Margaret Jones a Mr Arthur Roderick. Roedd rhain yn amrywio o ofidïo fod neges yr Ŵyl wedi hen ddiffannu a llawer gormod o bwyslais ar yr ochr fasnachol, at ddymuno gweld mwy o frawdgarwch a gofidio fod cymdeithas wedi colli'r ddawn o fod yn oddefgar. Annogwyd y rhai oedd eisioes wedi torri eu haddunedau i'w gwneud eto gan addunedu i fod yn fwy ymwybodol o sefyllfa gwledydd tlawd y byd sydd yn dioddef mor enbyd o ddiffyg maeth, dŵr ac y blaen, tra ein bod ni yn byw yn gyfforddus.

Wrth fwrdd y cymun dymunodd y Parch Goronwy Evans yn dda i'r rhai oedd yn sâl mewn ysbytai, yn eu cartrefi neu mewn cartrefi i'r henoed gan gydymdeimlo hefyd gyda'r rhai oedd wedi colli anwyliad.

Aelod Newydd

Croesawyd Mrs Nia Williams, Tŷ Coch, Alltyblaca, yn aelod newydd ar ddechrau'r flwyddyn.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi llwyddo mewn gwahanol feysydd dros y cyfnod a llongyfarchiadau hefyd i'r Parch Goronwy Evans ar ei gampwaith fel golygydd Dyddiaduron Defi Lango, sef y gyfrol boblogaidd iawn, 'Perlau'r Pridd', a ymddangosodd yn y siopau ychydig cyn y Nadolig.

CAPEL Y GRAIG



Plant yr Ysgol Sul gyda'r Gweinidog

Gwasanaeth Nadolig

Yn ôl ein harfer cafwyd gwasanaeth Nadolig arbennig gan blant yr ysgol Sul. Bu'r canlynol yn cymryd rhan Cerian a Megan Colbourne, Gwenyth Richards, Keri Ann a Liam Worsdell, Ben a Sam Phillips, Guto Davies, Rhodri Morris a Rhydian Owens. Gwnaeth pawb eu gwaith yn arbennig o dda a diolch i'r sawl a fu'n eu dysgu. Ar ddiwedd y gwasanaeth, daeth y Nadolig yn gynnar, cafodd y plant i gyd anrhegion oddi wrth aelodau'r capel am eu paroddrwydd bob amser i gymryd rhan yn y gwasanaethau. I ddiwedd, cawsom wledd o 'sosej a chips' yn y festri a phawb yn mwynhau. Diolch i'r rhai a fu'n gwneini'r bwyd ac yn ei baratoi.



Ben Phillips, y sgowt

Llongyfarchiadau a phob lwc

Yn Rhagfyr 2009 fe gafodd un o fechgyn yr ysgol Sul, Ben Phillips, ei ddewis i gynhyrchioli Cymru yn y "World Scouts Jamboree" yn Sweden yn 2011. Bydd Ben yn un o 130 o blant o Gymru fydd yn teithio i Copenhagen ac ymlaen i Sweden am 20 o ddiwrnodau yn ystod yr haf yn 2011. Mae hwn yn brofiad gwych i fachgen mor ifanc.

Hefyd hoffwn longyfarch Ben am ennill gwobr o £200 wrth Uchel Siryf Dyfed tuag at y trip i Sweden. Fe aeth Ben i Brifysgol Llanbedr Pont Steffan, dydd Gwener, 19eg o Chwefror gyda Phennaeth y Sgowtiaid, John Morris, i seremoni wobrwyo Yr Uchel Siryf i dderbyn y wobr.

Hoffwn ddmuno'n dda iddo dros y flwyddyn nesa' wrth iddo baratoi am y trip a chodi'r £2000 sydd angen arno i fynd i Sweden.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rhodri Morris, Graigwrtheyrn, a'r gweinidog am ennill cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Ffermwr Ifanc Sir Ceredigion. Bydd y ddau yn mynd ymlaen i gynrychioli Sir Ceredigion yn y gystadleuaeth dros Gymru.

Cwrdd cyfrifon

Ar ddiwedd mis Ionawr cynhelir cwrdd cyfrifon y capel dan lywyddiaeth Eleanor Colbourne. Hoffwn ddiolch i bawb a ddaeth i'r cwrdd ac i holl swyddogion y capel.

Gwellhad buan

Gwellhad buan i aelodau a ffrindiau'r capel sydd wedi bod yn yr ysbyty neu yn ddi hwyl yn ddiweddar.



Priodas

Priodwyd Teleri, merch Robert a Rhian Morris, Graigwrtheyrn, Llanfihangel ar arth a Gerwyn, mab Tommy ac Irene, Cefnperthypod, Llanarth yng nhapel Undodaidd Y Graig, Llandysul ar Ddydd Sadwrn Tachwedd 7fed, 2009.

CRIBYN

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i Mrs Mary Howells, 54 Bro Henllys, Felinfach ar ddathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar.

Dymuniadau da

Dymuniadau gorau i Mr Evan Jones (gynt o Emlyn House) sydd wedi ymgartrefu yn Nghartref Preswyl Carlton House, Llanon.

Gŵyl Ddewi

Ar ddydd Sul, 28 Chwefror, cynhaliwyd gwasanaeth yn y capel i nodi Dydd Gŵyl Ddewi. Wrth gofio taw un cymal ym mhregeth olaf Dewi Sant oedd yr anogaeth i gadw'r ffydd cafwyd anerchiad gan y gweinidog ar bwysigrwydd ffydd. Paratowyd Bwrdd y Cymun gan Mair Davies. Cynorthwywyd i ddsbarthu'r Cymun gan Dewi Davies a Ronald Thomas. Hwy hefyd a wnaeth y casgliad ar ddiwedd yr oedfa. Y cyfeilydd oedd Rhiannon Jones. Rhoddwyd y diolchiadau gan Bet Jenkins. Wedi'r gwasanaeth cafwyd lluniaeth a diolchodd y Parch Cen Llwyd i bawb a fu'n paratoi'r wledd. Danfonwyd cyfarchion arbennig i Mari Howells o Felinfach a oedd ddeuddydd ynghynt yn dathlu ei phen blwydd yn 90 oed. Dymunwyd yn dda yn ogystal i Evan Jones sydd wedi mynd i Gartref Preswyl yn Llanon.

CAPEL Y GROES

Cymorth Cristnogol

Bu plant a ieuencid yr Ysgol Sul yn cyflwyno siec am £500 i Tom Defis o Gymorth Cristnogol. Casglwyd yr arian o werthiant cardiau Nadolig, ond yn bennaf wrth i'r ieuencid gynnig coffi a thê yn y festri wedi

gwasanaethau'r bore ar Suliau cyntaf y mis.



CAPEL Y FADFA

Cydyndeimlo

Fel aelodau yr ydym am estyn ein cydyndeimlad dwysaf â phawb sydd â chysylltiad â'r capel sydd wedi colli perthnasau a ffrindiau yn ystod y misoedd diwethaf. Yr ydym yn meddwl amdanoch yn eich galar.

Gwasanaeth Nadolig

Hyfryd oedd gweld cymaint wedi dod at ei gilydd i wasanaeth Nadolig y plant a phobl ifanc Capel y Fadfa ar y nos Sul cyn y Nadolig. Cafwyd oedfa arbennig yn ôl yr arfer. I ddilyn fe aeth pawb i'r festri i fwynhau'r te ysblennydd a oedd wedi cael ei baratoi gan yr aelodau. Braff oedd cael croesawu Siôn Corn er mwyn iddo gael rhannu'r anrhegion i'r plant am fynychu'r Ysgol Sul gydol y flwyddyn. Tynnwyd y raffl flynyddol yn ystod y noson a braff oedd gweld bod y tocynnau wedi eu gwerthu'n dda dyma ffynhonnell yr arian i gadw'r Ysgol Sul i fynd gydol y flwyddyn. Diolch i'r plant a'r athrawon ac i'r gynulleidfa am noson mor lwyddiannus, er gwaetha'r tywydd oer.

Cefn Gwlad

Ddechrau'r flwyddyn cawsom gyfle i weld rhaglen gyda Dai Jones, Llanilar a chriw 'Cefn Gwlad' yn ymweld â Thalgarreg. Hefin Evans, Tafarn Glanrafon oedd yn arwain Dai a'r criw o gwmpas y pentref ac yr oedd y siwrne yn cychwyn yng Nglanrafon, sydd yn cael ei redeg gan Hefin a Megan. Fel yr ydym i gyd yn gwybod mae'r dafarn yn fan cyfarfod poblogaidd, gyda nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yno yn gyson er mwyn codi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. Ymwelodd Dai hefyd â'r ysgol gynradd leol, lle mae'r hen a'r ifanc yn dod at ei gilydd sawl gwaith y mis i gael cinio gyda'i gilydd. Cafwyd siawns i weld rhai o fusnesau lleol y pentref, gyda nifer o'r perchnogion yn aelodau yng Nghapel y Fadfa a chafwyd cyfle i weld y cadeiriau a'r coronau mae'r Prifardd Donald Evans, Y Plas, wedi eu hennill yn yr Eisteddfodau Cenedlaethol. Rhaglen ddiddorol gyda phobl ddifyr yn dangos y pentref ar ei orau.

Llongyfarchiadau

Yr ydym fel aelodau am longyfarch Huw Thomas, Cwmdyllest (gynt), ar gael ei benodi yn Drysorydd Mygedol yr enwad drwy Brydain. Mae Huw yn Bennaeth ar Wasanaethau Ariannol yr Ysbyty Frenhinol Unedig yng Nghaerfaddon (Bath). Dymunir pob llwyddiant iddo gyda'r gwaith fel Trysorydd Mygedol. Mae'n fraint i ni fel Undodiaid ardal y Smotyn Du fod Huw wedi ei benodi i swydd mor bwysig o fewn yr enwad.

Eisteddfod Gadeiriol Capel y Fadfa

Unwaith eto eleni mae'r trefniadau wedi cael eu gwneud ar gyfer diwrnod prysur a phwysig arall ym mhentref Talgarreg gydag Eisteddfod Gadeiriol Capel y Fadfa yn y Neuadd Goffa ar ddydd Sadwrn, 1 Mai. Llywydd y dydd yw un sydd â chysylltiadau agos â'r capel sef Arthur Dafis, Talybont (Crug yr eryr Uchaf gynt). Yn ôl yr arfer mae angen tri beirniad i ofalu am yr adrannau cystadlu sef Cerddoriaeth, Gary Anderson; Llên a Llefaru, Y Parch John Gwilym Jones, ac ar yr Adran Arlunio, Mrs Lis Woolley.

Shinto, Bwdhaeth a Christnogaeth: Argraffiadau Branwen am wlad y karaoke

Mae Branwen Dafis - merch y Parchedig Alun Wyn Dafis - yn byw ac yn gweithio yn Siapan. Yn yr erthygl ddadlennol yma, mae'r ferch o'r Smotyn Du yn trafod bywyd a chrefydd yng gwlad baner y smotyn coch.



Siapan – gwlad technoleg, motobeics, karaoke, ffasiwn unigryw merched Harajuku a sushi. Gwlad sy'n ddiarth iawn i'r rhan fwyaf o bobl Cymru. Ac er mod i wedi bod yn byw yma am flwyddyn a hanner erbyn hyn, mae'n rhaid dweud fod nifer o bethau yn parhau i fy synnu o hyd.

Ar ôl byw yng nghefn gwlad Cymru am dros 21 o flynyddoedd, sioc fawr oedd glanio mewn dinas gyda tua 13 miliwn o bobl - dros bedair gwaith poblogaeth Cymru - yn treial byw mewn ardal sydd ddim ond degfed rhan o faint Cymru. Yn ogystal â hynny, er fod llawer o bobl yn cysylltu motobeics gyda Siapan, mae'r wlad yn un saff iawn, a'r bobl yn ofalus tu hwnt. Felly, mewn gwirionedd does dim llawer o fotobeics i'w gweld ar y ffyrdd. Y rhan fwyaf o'r amser naill ai mopeds bach neu feiciau cyffredin mae pobl yn defnyddio.

Agwedd arall o fywyd sy'n wahanol iawn yn Siapan yw cymdeithas. Mae yna lawer mwy o bwyslais ar y grŵp yn hytrach na'r unigolyn, ac mae hierarchaeth yn hynod o bwysig. Mewn cwmni Siapaneaidd, er enghraifft, os oes rhaid gwneud penderfyniad ynglŷn â phwy sy'n cael dyrchafiad, bydd y person hynaf yn cael ei ddirchafu o flaen person mwy galluog bob tro. Hyd yn oed y tu allan i'r gwaith, mae'n rhaid dangos llawer o barch tuag at bobl hŷn.

Un o hoff bethau pobl Siapan yw canu karaoke. Felly, mae'n ddigon cyffredin gweld grwpiau o ddynion busnes yn gwasgu i fewn i ystafelloedd bach tywyll a phreifat, yr un faint ag ystafell ymolchi gartref, er mwyn canu karaoke gyda'i gilydd hyd oriau man y bore. Ond, hyd yn oed mewn sefyllfa o'r fath, mae'r gweithwyr ifanc yn bihafio'n gwrtais iawn tuag at y rhai hŷn gydol y nos. Mae 'na ddisgwyl iddynt ganmol y canu – 'sdim ots pa mor erllych y sŵn! Yn ogystal, mae'n rhaid iddynt wneud yn siwr bod gwydrau cyd-weithwyr hŷn fyth yn wag.

Felly, mewn gwlad sydd â chymdeithas mor gwrtais â Siapan, pa ran mae crefydd yn chwarae? Mae'r mwyafrif o bobl yn ystyried eu hunain i fod naill ai yn Fwdhaidd neu'n Shinto. Crefydd cynhenid Siapan yw



Shinto, a daeth Bwdhaeth i Siapan o Asia yn y 6ed ganrif. Mae'r ddau grefydd yn cyd-fyw, ac yn aml iawn mae pobl yn addoli cymysgedd o'r ddau. Er enghraifft, mae llawer o bobl yn cael bedydd Shinto, ond eto'n cael angladd Bwdhaidd – ac mae hyn yn synnu nifer o bobl sy'n edrych o'r tu allan, a ddim yn rhan o gymdeithas gynhenid Siapan.

Shinto: Pwysigrwydd natur

Mewn Siapanaëg, mae Shinto yn golygu 'Ffordd y Duwiau'. Mae natur yn bwysig iawn mewn Shinto, ac mae dilynwyr yn credu bod miloedd o Dduwiau i gael, a bod nhw'n bodoli ar y ddaear, o fewn natur. Canolbwynt Shinto yw gweithredu drwy seremoni yn hytrach na phregethau, a 'dyw pobl fel arfer ddim yn dod at ei gilydd i addoli.

Un ymarfer bwysig mewn Shinto yw 'Hatsumode,' sef yr ymweliad cyntaf â'r allor mewn blwyddyn newydd. Fel arfer, mae pobl yn ymweld â'r allor ar y 1af o Ionawr,

gan weddio dros hapusrwydd ac iechyd am y flwyddyn o'u blaen. Hefyd, mae'n arferol cael 'Omikuji' sydd yn golygu 'Loteri sanctaidd.' I bob pwrpas, darn o bapur yw hwn sy'n darogan ffortiwn y person sy'n derbyn y papur am y flwyddyn i ddod. Ac mae yna 12 math o ffortiwn sy'n bosib eu cael, yn amrywio o 'arbennig' i 'ofnadwy.' Mae'r ffortiwnau i gyd yn cael eu clymu ar ganghennau coed, neu ar raffau arbennig y tu allan i'r allor.

Cyn ymweld ag allor, mae'n arferol i ddefnyddio'r ffynnon buro sydd wrth y fynedfa. Mae'n rhaid golchi'ch dwylo, yna mynd i sefyll o flaen yr allor. Yn y fan yma, mae pobl yn taflu arian i fewn i flwch, ac yna'n clapio'u dwylo ddwy



waith, a phlygu o flaen yr allor ddwy waith. Wedi hynny, maent yn gadael.

Obon – Pwyslais ar gyn-deidiau

Traddodiad pwysig arall i'r bobl Siapaneaidd yw 'Obon.' Mae Obon yn ymarferiad Bwdhaidd, ac mae'n parhau am dridiau yn mis Awst. Dyma pryd mae pobl yn arfer dychwelyd i'w cartrefi i gwrdd â'u teuluoedd. Pwrpas Obon yw i bobl ymweld â beddau eu cyn-deidiau, ac yn ôl y gred Fwdhaidd, mae ysbryd y cyn-deidiau yn dychwelyd i'r ddaear dros yr adeg hyn, ac yn dod i aros gyda'r teulu. Yn ystod yr amser hyn, mae'r teulu'n gosod bwyd allan iddynt bob dydd. Ar ddiwedd Obon, mae pobl yn goleuo llusernau papur, ac yn eu hanfon nhw i lawr yr afon. Mae hyn i fod i arwain y cyn-deidiau yn ôl i'r byd ysbrydol.

Felly, i gymharu gyda Christnogaeth, mae yna lawer mwy o weithredoedd yn perthyn i'r gred Shinto. Ond, eto i gyd, dwi ddim yn teimlo dylanwad Bwdhaeth na Shinto mewn bywyd bob dydd yma yn Siapan. Rheolau cymdeithas sydd yn rheoli ymddygiad pobl yn y wlad yma yn hytrach na chrefydd.

Peth arall sy'n diddorol yw bod priodasau Cristnogol wedi dod yn boblogaidd iawn yn Siapan yn ddiweddar. Mae hyn, unwaith eto, yn dangos nad oes un math o grefydd penodol yn rheoli yn y wlad, gan fod cymaint o gymysgedd yma, a phobl yn credu mewn Bwdhaeth, Shinto a Christnogaeth - yn dibynnu ar yr achlysur. Beth bynnag y rheswm, mae pobl Siapan yn heddychlon iawn, ac rwy'n edrych ymlaen at fwynhau a darganfod llawer mwy am y diwylliant hynod o ddiddorol, gwahanol a chyffrous sydd yma.

Y cyfeillydd yn ôl yr arfer fydd Mrs Lynne James, Castell Newydd Emlyn. Arweinyddion y dydd fydd y Parch Wyn Thomas, Parch Cen Llwyd, Tania Rees a Siwsan Davies. Bydd y gadair fechan a £40 yn cael ei rhoi gan y Parch Wyn Thomas am gyfansoddi geiriau emyn ar gyfer Sul y Cofio. Hefyd mae yna gystadleuaeth lenyddiaeth i bobl ifanc dan 19 oed, a bydd angen cyflwyno dau ddarn gwahanol o lenyddiaeth mewn unrhyw fodd, gyda gwobr o dlws hardd a £20 yn rhoddedig gan Emlyn Jones, Gwylfa. Yn ystod y dydd bydd lluniaeth yn cael ei ddarparu am bris rhesymol yn y Neuadd gan Gegin Fach y Wlad. Os am ragor o fanylion am yr Eisteddfod, neu i gael rhaglen, cysylltwch gyda'r swyddogion Emyr Griffiths, Nant y Glyn neu Janice Davies, Penffynnon.

Gwellhad buan

Yr ydym am ddymuno gwellhad llwyr a buan i'r holl aelodau a ffrindiau'r achos sydd ddim wedi bod yn dda iawn eu hiechyd yn ystod y misoedd diwethaf.

Ffwrwmau

Mae gan swyddogion Capel y Fadfa amryw o ffwrwmau o bren pinwydd ar gael am bris rhesymol, gan nad oes eu hangen mwyach yn festri fach y capel. Os oes diddordeb gan unrhyw un i'w gweld, mae angen cysylltu gydag Eluned Rees, Penpistyll cyn gynted â phosib.

Dymuno'n dda

Hoffai'r aelodau longyfarch ein gweinidog sef y Parch Wyn Thomas, Cwmdyllest, ar gael ei ethol yn Ffarmwr Ifanc y Flwyddyn gan Glybiau Ffermwr Ifanc Ceredigion yn ddiweddar. Dymunwn yn dda iddo gyda'r swyddogaeth bwysig yma yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

NEWYDDION CAPEL'R DE

Aberdar

Mae adeilad yr Hen Dy Cwrdd yn Nhrecynon yn y broses o gael ei adnewyddu gyda tho a ffenestri newydd ar hyn o bryd. Trosglwyddwyd yr adeilad i ofal Ymddiriedolaeth Capeli Cymru a gobeithir cwblhau tu mewn i'r capel cyn diwedd y flwyddyn a chael cyfarfod i ail agor yr adeilad yn gynnar yn 2011 pan fyddwn yn gallu dathlu 260 o flynyddoedd o fodolaeth yr Hen Dy Cwrdd.

Eleni, mae capel Highland Place yn dathlu 150 o flynyddoedd ac eisioes fe drefnwydd tair o ddarlithoedd ar ddatblygiad Radicaliaeth yng Nghwm Cynon a Chwm Merthyr. Agorwyd y capel ar Ragfyr 20fed 1860, ac fe drefnir gwasanaeth arbennig ar Ragfyr 19eg i nodi'r digwyddiad. Cyhoeddir llyfr yn olrhain hanes y gynulleidfa a'r gymuned gyfagos cyn diwedd y flwyddyn yn ogystal â chinio a chyngerdd yn gynnar yn 2011. Mae nifer o welliannau wedi eu cwblhau yn ddiweddar, gan gynnwys mynediad mwy hwylus ar gyfer yr anabl a ffenestr liw i nodi dathliadau y canmlwyddiant a hanner.

Cymdeithas De Ddwyrain Cymru

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas yn Highland Place ddechrau Mai. Mae cynulleidfa oedd Caerdydd, Cefncoed ac Aberdar wedi penderfynu hysbysebu am weinidog a chynhaliwyd nifer o gyfarfodydd i wneud y trefniadau angenrheidiol. Cynhelir Cymanfa Ganu yng Nghapel Abertawe ar Ebrill 27ain a threfnir Gŵyl Flynyddol ar y Sul cyntaf yng Ngorffennaf.

CAPEL Y BRYN

Aelod Newydd

Braf oedd derbyn Mrs Angela Jones, Tanrallt gynt, fel aelod newydd i'r capel yn ddiweddar.

Ffermwr Ifanc y Flwyddyn

Llongyfarchiadau gwresog i'n gweinidog Y Parch Wyn Thomas ar gael ei ddewis yn Ffermwr Ifanc y flwyddyn 2010. Dymuniadau gorau iddo wrth iddo gymryd at y swydd.

CAPEL Y CWM

Llwyddiant C Ff I

Mae Einir Ryder wedi cael tipyn o lwyddiant ym myd Siarad Cyhoeddus Saesneg y Mudiad a Llwyddiant yn Eisteddfod C.Ff.I Ceredigion yn Llanbed yn ddiweddar. Fe fu Einir a'i ffrind Teleri, o Glwb Pontsian, yn llwyddianus yn y Ddeuawd Ddoniol ac fe fu'r ddwy lan yn Llandudno yn

cystadlu yn Eisteddfod Cymru gan sicrhau y trydydd safle. Da iawn chi.

Taith Dramor

Llongyfarchiadau i Einir Ryder, Tyngrug ganol, ar gael ei dewis gyda C.Ff.I. Cymru i fynd allan i Seminar Gwanwyn 2010 i Serbia. Dymuniadau gorau i ti Einir ac fe fyddwn yn ysu i glywed am dy daith yn y dyfodol.



Plant yr Ysgol Sul gyda Jean Richards a Wenella Evans ar noson y Gymanfa Garolau.

Cymanfa Garolau Ysgol Sul y Cwm

Ar nos Sul olaf 2009 daeth llond capel ynghyd i Gwmsychpant i Gymanfa Garolau o dan nawdd yr Ysgol Sul. Yr arweinyddes oedd Einir Ryder, Tyngrug ganol, a'r organyddes oedd Carys Evans, Penffordd y ddwy yn gyn ddisgyblion o'r Ysgol Sul. Cafwyd noson arbennig iawn yng nghwmni'r ddwy gyda chanu da iawn. Artistiaid y noson oedd Plant yr Ysgol Sul a Pharti'r Gannwyll. Cafwyd ganddynt eitemau amserol a chofiadwy. Y llywydd oedd Clive Williams o Rydyfelin ger Aberystwyth [ond fel Clive Clyncoch yr adnabyddir ef yn yr ardal yma] ac fe gafwyd ganddo nifer o straeon am ei gyfnod ef yn yr Ysgol Sul yn Capel y Cwm sawl blwyddyn yn ôl bellach.

Yn ystod y Gymanfa cafodd Jean Richards, Elmo, athrawes yn yr Ysgol Sul am dros 40 o flynyddoedd ei chyflwyno gydag anrheg gan ei bod yn ymddeol o fod yn athrawes yn yr Ysgol Sul. Hefyd bydd ei chwaer, Wenella Evans, Penffordd, a fu yn ei helpu dros y blynyddoedd diwethaf, yn gorffen hefyd.

Cydyndeimlo

Cydyndeimlir yn ddwys â Lilwen Davies, Brynawel, a'r teulu ar golli mam, mamgu a hen famgu annwyl sef Mrs Sarah Davies, Brynau, Mydroilyn.

90oed

Yn ystod mis Ebrill fe fydd David Richards, Elmo, diacon yng Nghapel y Cwm ers nifer fawr o flynyddoedd yn dathlu ei benblwydd yn 90oed. Hir oes a iechyd da eto i chi am flynyddoedd lawer.

Ymdeoliad y Trysorydd

Ar ddiwedd 2009 daeth cyfnod Mrs Jean Evans, Llwyn y gôg, Gorsgoch, i ben gyda'i hymdeoliad o fod yn Drysorydd y Capel. Mae Jean wedi gwneud y swydd yma ers tua 20 mlynedd ac wedi dweud ar ddiwedd sawl blwyddyn na fyddai yn cario ymlaen ond ymlaen yr aeth, fel y gwyddom, a hynny o nerth i nerth. Yn y cwrdd cyntaf yn 2010 diolchodd y Parch Wyn Thomas iddi am ei chyfraniad gonest i Gapel y Cwm ar hyd y blynyddoedd a dymunodd yn dda i'w holnydd sef Mrs Elenid Jones, Talarwen.

Llongyfarchiadau

Ymfalchiwn fel aelodau Capel y Cwm yn llwyddiant ein gweinidog gan iddo gael ei ddewis yn Ffermwr Ifanc y Flwyddyn am y cyfnod 2010 2011 yng Ngheredigion. Mae Wyn yn aelod ffyddlon iawn o G Ff I Pontsian ers blynyddoedd ac mae pawb yn edrych ymlaen nawr i'w weld yn derbyn ei anrhydedd yn Rali'r Mudiad yn Llanddeiniol yn ystod mis Mai.



Wenella Evans, Carys Evans [cyfeilydd], Clive Williams [Llywydd], Jean Richards, Eimir Ryder [arweinydd] a'r Parch Wyn Thomas

Llongyfarchiadau

Daeth llwyddiant i ferched Clwb Ffermwyr Ifanc Pontsian yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.F.F.I Ceredigion ar ddiwedd y mis. Sicrhodd Catrin Jones, Talarwen, yr ail safle fel siaradwraig o dan 21 oed ac fe enillodd Eimir Ryder, Tyngrug ganol y Cadeirydd gorau dan 26 oed. Hefyd enillodd Lauren Jones o Glwb Llanwenog y cadeirydd gorau dan 16oed. Da iawn chi ferched.

Ar lefel Cymru fe enillodd y tim dan 21oed a Catrin yn aelod ohono. Hefyd roedd Eimir yn Gadeirydd gorau dan 26oed ac fe enillodd y tim hynny hefyd ar lefel Cymru.

PANTYDEFAID



Wyn Thomas a Gwenyth Richards

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r canlynol: Elen Thomas, Lisa Jones a Wyn Thomas ar eu llwyddiant yng nghystadleuthau Siarad Cyhoeddus y C.F.F.I; Wyn Thomas ar gael ei ddewis yn Ffermwr Ifanc y Flwyddyn yng Ngheredigion; Gwenyth Richards ar ennill gwobr arbennig yn Noson Wobrwyo'r ysgol, 5 gwobr gyntaf yn Eisteddfod Ysgol Dyffryn Teifi a 4 cyntaf yn Eisteddfod Sir yr Urdd; Eurion Jones Williams ar ennill 11 gwobr cyntaf yn Eisteddfod Sir yr Urdd, a phob hwyl i'r ddau ohonynt yn Llanerchaeron. Hefyd, llongyfarchiadau i Gareth a Laura ar eu dyweddïad; Marged Evans, Glaslwyn ar ei phenblwydd yn 90; Huw Thomas ar gael ei benodi'n Drysorydd Anrhydeddus y G.A.; Lisa Jones ar ennill ysgoloriaeth i Brifysgol Aberystwyth.

Urdd y Benywod

Ar ddydd Sul, 14eg o Fawrth, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ym Mhantdefaid gyda'r canlynol yn cymryd rhan: y ddwy Mary Williams, Rowena Davies, Peggy Davies, Elen a Glesni Thomas, Dwynwen Evans, Angela Thomas, Gaynor a Gwenyth Richards ac Elaine Davies. Hyfryd oedd croesawu Manon Richards o Gapel y Groes i'n hannerch. Yn ystod y gwasanaeth cyflwynwyd system sain at ddefnydd y Capel gan Urdd y Benywod yn ogystal â rhodd o arwydd hardd y tu allan i'r Capel a ddadorchuddiwyd gan y Parchedig Wyn Thomas a Gwenyth Richards, aelod ifancaf



Miss Marged Evans

Urdd y Benywod. Cafwyd cyfle hefyd i anrhegu Miss Marged Evans ar achlysur ei phenblwydd yn 90 oed. Mae Marged yn aelod o Urdd y Benywod ers 78 mlynedd ac fe'i hanrhegwyd gan yr is llywydd, Hefina Davies, gyda Mary Jones, Blaenhirbant, nith i Marged, yn derbyn ar ei rhan.

Cydyndeimlad

Estyynnwn ein cydyndeimlad dwysaf at Mr a Mrs D.O. Evans, Mrs Betty Thomas a'r teulu a Mr a Mrs Eilir Jones ar golli anwyliad.

Gwellhad

Dymuniadau gorau i Gaynor a Geraint Richards, y ddau ohonynt bellach ar wellhad ar ôl gwahanol lawdriniaethau.

Diolch

Diolch o waelod calon i bawb a fu'n helpu i lanhau'r festri wedi'r gwaith adnewyddu a fu yno.

RHYDYGWIN

Marwolaeth

Gyda thristwch y cofnodir marwolaeth dwy o aelodau a ffrindiau ffyddlon i'r Capel. Bu farw Mrs Elsie Davies, gwraig y diweddar Daff Davies, Y Bryn, yng nghartref Maesyfelin, Drefach, a chynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Siloh, Llanbedr Pont Steffan ar 18 Tachwedd 2009. Bu farw Miss Joyce Saunders Davies yng Nghartref Plentyn yn noson wobrwyo Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. Llongyfarchiadau hefyd ar ei chanlyniadau da iawn yn ei harholiadau TGAU. Mae hi bellach yn dilyn cwrs sy'n ymwneud â Gofal Plant yn y chweched dosbarth. Pob hwyl hefyd i'w chwaer, Donna, sydd erbyn hyn wedi dychwelyd ar ôl cyfnod yn gweithio fel gofalwraig plant yn yr Aifft ac sydd ar fin symud i Devizes, Wiltshire. Llongyfarchiadau i Aled Davies, Tŷ Newydd, Brynog, ar ei ddyrchafiad i swydd Rheolwr Prosiect gyda chwmni Menter a Busnes yn y swyddfa yng Nghaerdydd.

Newyddion da

Dymuniadau gorau i Julia Jenkins a Meinir Jenkins a'r teulu ar eu menter newydd ar safle'r hen ffatri gaws yn Felinfach. Mae'n dda gweld y lle yn llawn bwrwlwm unwaith eto. Llongyfarchiadau i Amy Wright, 8 Bryn Salem, ar dderbyn gwobr 'Datblygiad Plentyn' yn noson wobrwyo Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan. Llongyfarchiadau hefyd ar ei chanlyniadau da iawn yn ei harholiadau TGAU. Mae hi bellach yn dilyn cwrs sy'n ymwneud â Gofal Plant yn y chweched dosbarth. Pob hwyl hefyd i'w chwaer, Donna, sydd erbyn hyn wedi dychwelyd ar ôl cyfnod yn gweithio fel gofalwraig plant yn yr Aifft ac sydd ar fin symud i Devizes, Wiltshire. Llongyfarchiadau i Aled Davies, Tŷ Newydd, Brynog, ar ei ddyrchafiad i swydd Rheolwr Prosiect gyda chwmni Menter a Busnes yn y swyddfa yng Nghaerdydd.

Gofalwr newydd

Wrth ffarwelio a Rhian a Gary, a diolch iddynt am ofalu ar ôl y Capel a'r fynwent am y tair blynedd diwethaf, rydym yn croesawu Geraint Wright i'r Tŷ Capel. Gobeithio y bydd e'n hapus yn ein plith.

Gwasanaethau a Gweithgareddau.

Yn ystod 2009 diweddwyd Taith Gerdded y Gymdeithas Undodaidd yn Brynog pryd cafwyd croeso a lluniaeth i'r cerddwyr oedd wedi codi arian at Gronfa Nyrs y Galon yng Ngheredigion. Cynhaliwyd hefyd Ras Hwyaid yn Glanwern i godi arian at goffrau'r capel. Bu'r ddau ddigwyddiad yn llwyddiannus iawn a diolch i bawb a fu'n cynorthwyo gyda'r trefniadau. Cafwyd gwasanaeth arbennig yn yr Hydref o dan ofal ein gweinidog, y Parch Cen Llwyd. Daeth tri aelod o Gapel y Groes i'w gynorthwyo yn y gwasanaeth a oedd yn seiliedig ar waith y diweddar T. Llew Jones. Cafodd y gynulleidfa foddhad mawr diolch i Cen, Manon, Cerys a Luned Mair. Braf oedd croesawu aelodau Urdd y Benywod i Rhydygwin ar gyfer ei Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol. Y Parch Cen Llwyd oedd y pregethwr gwadd. Cafwyd te a lluniaeth yn y festri ar ôl y gwasanaeth oedd wedi ei drefnu gan wragedd y capel. Y Sul cyn y Nadolig, cafwyd gwasanaeth Nadolig yng ngofal Y Parch Cen Llwyd gydag Edna, Eirwen, Margaret, Nia, Amy a Kay yn cymryd rhan. Diolch yn fawr hefyd i Mrs Ceinwen Roach, o Gapel y Groes, a ddaeth i'n cynorthwyo wrth yr organ.

'Gyda'n gilydd, at ein gilydd'

Mae Rhydygwin yn un o 18 capel neu eglwys yn ardal Dyffryn Aeron sydd yn dod 'at ein gilydd' yn achlysurol i drefnu a thrafod cydweithio gydag enwadau eraill. Yn dilyn llwyddiant ysgubol dathliadau Dydd Gŵyl Dewi llynedd, aethpwyd ati yn yr Hydref i ddsbarthu taflenni yn hysbysu gwasanaethau sydd yn digwydd yn ardal Felinfach. Dewiswyd Felinfach fel ardal 'beilot' a braf yw adrodd bod yr arbrawf wedi llwyddo wrth godi ymwybyddiaeth am y sefydliadau addoli yn yr ardal. Mae'r pwyllgor yn gobeithio trefnu digwyddiad arall yn y dyfodol agos.

Priodas

Dymunwn bob lwc i Lynwen (Enlli) a Lee ar eu priodas a gynhelir yng Nghapel Rhydygwin ym mis Mai. Edrychwn ymlaen hefyd i weld ei brawd, Gareth, a fydd yn dod 'nôl o Seland Newydd ar gyfer y priodas. Hefyd, pob lwc wrth iddynt symud o Landeilo i Aberaeron yn y dyfodol agos.

Gwasanaethau Capel Rhydygwin

Rydym yn cynnal gwasanaethau yn y capel ar y trydydd (1:30pm) a phedwerydd Sul (10:30) o'r mis. Croeso cynnes i bawb!

Cefnogaeth i hyrwyddo digwyddiadau Undodaidd - grantiau ar gael



unitarians

- share a quest for wholeness
- share a concern for social justice
- provide a caring community
- provide new ways to experience spirituality

Mae'r CommComm (Communication Commission) neu Gomisiwn Cyfathrebu yr enwad – wedi llwyddo i ddarparu cefnogaeth o ran cyfathrebu i dros 40 o gynulleidfaoedd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Y nod yw gwneud hyn drwy ddefnyddio hunaniaeth gyson gan gynnwys logo a lliwiau'r enwad mewn posteri a gohebiaeth, ac ati, i greu presenoldeb gweledol cryf i Undodiaeth. Nawr mae'r CommComm yn lansio cynllun newydd i gefnogi cynulleidfaoedd gydag ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ac yn croesawu ceisiadau am grantiau hyd at £250 oddi wrth gapeli i hybu'r broses o hyrwyddo digwyddiadau cynulleidfaoedd yn lleol. Felly, os yw'ch cynulleidfa chi am gymorth i greu pamffledi neu bosteri cysylltwch gyda'r mudiad yn ganolog yn Essex Hall, Llundain.

Mae'r manylion cyswilt fan hyn - Cyfeiriad: The General Assembly of Unitarian and Free Christian Churches, Essex Hall, 1-6 Essex Street, London, WC2R 3HY Ffôn: 0207 240 2384 e-bost: info@unitarian.org.uk

Hefyd mae gwefan newydd wedi ei chreu ac mae gwybodaeth bellach yno ar y cynllun yma a nifer o ddatblygiadau diddorol eraill. <http://www.unitarian.org.uk/info/commissions-comm.shtml>

Llun Highgate yn dal i ennyn diddordeb

Mae'r ymateb yn parhau i ddod i law i'r llun o daith cynulleidfa Capel Undodaidd Highgate, Llundain, i Hastings yn 1949 – a gafodd ei gynnwys yn rhifyn Haf 2009 o'r Ymfynnydd. Roedd Mrs Morfudd Evans, o Gaerfyrddin, wnaeth anfon y llun at Yr Ymfynnydd yn awyddus i weld faint o enwau fyddai'n dod i law ar gyfer pobl sy'n ymddangos yn y llun. Yn y rhifyn diwetha', fe wnaeth Mr Denzil Davies o Bedford (ond yn wreiddiol o Alltbylaca) gynnig enwau ar gyfer rhai yn y llun. Ac mae'r ymateb yn parhau. Ers hynny mae Mrs Morfudd Evans wedi derbyn enwau eraill – gyda chymorth Mari Howells o Felinfach, sydd wedi datlu ei phenblwydd yn 90 oed yn ddiweddar, a'i chwaer, Dilwen Jenkins o Gribyn. Mae rhai o'r enwau yn wahanol i'r rheiny gynigwyd gan Mr Davies. Felly dyma gynnwys rheiny wedi eu rhifo. Mae'n bosib eich bod chi yn nabod neu'n cofio am rai o'r bobl yma, neu'n perthyn iddyn nhw.



1. Jack (Felin) Cribyn
2. Nid mam Sulwen, meddai Mrs Evans, ond dyw hi ddim yn gallu cofio enw'r wraig, chwaith
3. Gwraig Garfield
- 4 a 5. Merched Betsy a'i gŵr 25 a 31
6. Nid Garfield (ond dyw Mrs Evans ddim yn cofio ei enw)
9. Rona (Shop Hughes) Ciliau Aeron gynt
10. Glenys (ffrind Rona)
20. Sem (gweithio yn y banc)
23. Mair (Foelallt, Ciliau Aeron)
25. Betsy (yn dod o Dalgarreg)
26. Gwen (Gôf) o Gwrtnwydd
31. Gwr Betsy (25). Mae Mrs Evans yn meddwl mai Pugh oedd ei enw - roedd yn ysgol feistr.

**Ac wrth gwrs, os oes gyda chi lun o'r gorffennol – yn ymwneud â chapel neu ysgol sul - y byddech chi'n awyddus i rannu gyda darllenwyr Yr Ymfynnydd, cofiwch gysylltu.*



Trip Gymanfa Ganu 2010

Maesglas, Drefach, Llanybydder,
Ceredigion. SA40 9YB.
24.03.10

Annwyl gyfeillion,
Bydd trip y Gymanfa Ganu [OND yn agored i
unryw un] yn mynd i Ganolfan y Mileniwm,

Caerdydd i weld 'Mamma Mia'. Bydd y perfformiad ar brynhawn
dydd Sul, 5ed o Ragfyr 2010.

Enwau i Nia Davies, Ysgrifenyddes y Gymanfa Ganu, erbyn
dydd Mercher, Ebrill 14eg 2010 fan pellaf gan nodi pa opsiwn
rydych yn ei ddewis!! [gweler isod]. Rwyf wedi archebu nifer
cyfyngedig o docynnau felly bydd angen gwybod yn bendant
arnaf erbyn y dyddiad a nodwyd uchod ynghyd â £15 o flaendâl
am bob tocyd.

- Opsiwn 1 Tocyn Oedolion a Phlant 'Upper Circle' £32.50
- Opsiwn 2 Tocyn Oedolion a Phlant 'Upper Circle' £27.50
- Opsiwn 3 Gadael Llanwnnen bore Sadwrn, sefyll y nos yng
Ngwesty'r 'Village' a gweld y sioe prynhawn Sul a theithio adref
ar ôl y sioe. Ystafell Dwbl neu Twin £90 yn cynnwys brecwast.
Ystafell deulu - £110 yn cynnwys brecwast. [Croeso i chi wneud
beth bynnag rydych chi eisiau yn ystod y penwythnos].
- Opsiwn 4 Gadael Llanwnnen amser cinio dydd Sul, gweld y
sioe a theithio adref.

Bwriad ein tripiâu yn flynyddol yw denu rhagor o blant a
ieuenctid i ddod i'n Cymnafa. I'r plant a'r ieuenctid bydd yn dod
i'r Rihyrsals yng ngwanwyn 2010 byddant yn cael gostyngaid
ym mhreis y tocyd!!!!

** Ni ellir rhoi arian nôl i unrhyw un ar ôl iddynt dalu. Eich
cyfrifoldeb CHI yw'r tocyd ar ôl i chi ei dalu amdano. Os ydych
yn rhoi eich enw i lawr mi fyddaf yn archebu tocyd ar eich
cyfer.**

Cofion Cynnes,

Nia Davies - Ysgrifenyddes



TRIP Y GYMANFA GANU 05:12:10

Capel

Enw:	Talwyd:	Opsiwn	
		1 neu 2	3 neu 4

COLOFN DYLAN IORWERTH



Pam fod Cardis yn dynn? Oherwydd yr Undodiaid!

Dyn bach digon doniol yr olwg ydi Christie Davies. Ac mae
ganddo ambell i syniad digon doniol hefyd. Er enghraifft, mai'r
Undodiaid sydd ar fai am fod Cardis yn dynn.

Mae'n academydd - Athro Prifysgol yn Reading - ond ei brif
faes ydi jôcs a hiwmor; beth y mae'r rheiny'n ei ddweud
amdanon ni a pha effaith y maen nhw'n ei gael.

Mae Christie Davies bellach yn dweud mai jôc ar ei ran oedd
galw am farwolaeth yr iaith Gymraeg yn 1997. Mae rhai'n
meddwl mai jôc oedd ei ymddangosiad ar y rhaglen deledu
yna hefyd, yr un oedd yn trafod yr iaith yn Llangeitho.

Dyna pryd y galwodd yr Athro - sy'n dod yn wreiddiol o
Abertawe o deulu a golodd eu Cymraeg genhedlaeth yn ôl -
am sefydlu ryw fath o ghetto Cymraeg yng Ngwynedd, Indian
Reservation i'r Cymry coch.

Doedd hi ddim yn glir iawn beth oedd i fod i ddigwydd i'r
gweddill ohonon ni, ond peidiwch â meddwl am funud bod yr
Athro'n anwybyddu Ceredigion. Mae ganddo ddiddordeb
mawr yn y Cardis.

Yn ôl Christie Davies, yr Undodiaid sydd i gyfri am y jôcs. Os
deallais i'n iawn, rhywbeth fel hyn oedd y theori...

Mae jôcs am bobol sy'n dynn gyda'u harian wastad yn
digwydd mewn ardaloedd lle mae'r Methodistiaid Calfinaidd
a'r Undodiaid yn gry'. (Mi feiddiais innau awgrymu nad oedd yr
Iddewon yn Undodiaid ... ond ta waeth).

Yng Ngheredigion, meddai, roedd y rhan fwyaf o weinidogion
yr holl enwadau wedi dod dan ddylanwad Undodiaid yn y
coleg. Yn wahanol i enwadau sy'n meddwl am y nefoedd,
mae'r Undodiaid yn meddwl am y ddaear.

Felly'r tro nesa' y clywch chi rywun yn holi pam fod Concorde
yn gwneud sŵn gwichian wrth hedfan uwchben Sir Aberteifi,
cofiwch mai chi sydd ar fai. A phan fydd yr holwr yn ateb ei
gwestiwn ei hun trwy esbonio bod y nyts i gyd yn tynhau,
triwch eich gorau i chwerrin.

Yn bersonol, mae'n well gen i feddwl am reswm llawer
symlach am y jôcs am arian. Am ganrifoedd roedd Ceredigion
yn llawn o ffermwyr bychain oedd yn crafu byw ar dir digysur
ac roedd bywyd yn gythreulig o galed. Digon i wneud pobun yn
dynn.

Tynn ydi'r gair, nid cybyddlyd. Mi wyddon ni'n iawn bod pobol
Ceredigion yn fwy parod na neb i gyfrannu at achosion da, yn
enwedig achosion lleol. Mae digwyddiadau fel Apêl y Gors yn
ddigon i ddangos hynny.

Dwn i ddim a ydi Christie Davies wedi ystyried y ffenomenon
honno - pam fod pobol sy'n ofalus iawn gyda'u harian hefyd
yn ofnadwy o hael. A pham mai pobol dlawd sydd yn aml fwyaf
caredig.

O bob rhan o'r byd, mae yna straeon am bobol sydd heb fawr
ddim yn barod i rannu'u cyfan. Teithwyr cyfoethog o'r
Gorllewin yn cyrraedd rhannau anghysbell o'r byd a'r bobol
leol, ynghanol cynni mawr, yn codi cywilydd gyda gwres eu
croeso.

Ninnau yn ninasoedd moethus y Gorllewin yn drwgdybio'n
gilydd, yn gwarafun rhoi arian i werthwr Big Issue neu'n cau'n
drysau'n dynn rhag ofn i ni glywed rhywun yn galw am help.

Dim ond wrth ddechrau cyfoethogi y bydd cymdeithas yn
mynd yn grafanglyd. Ychydig yn creu'r awydd am fwy. Nes, yn
y diwedd, bod arian yn nod ynddo'i hun a gwneud rhagor yn
genhadaeth bywyd.

Nid crefydd sy'n dweud bod hynny'n ddrwg, ond rheswm.
Mae'n wir bod Iesu Grist yn dweud yn ddigon plaen faint o
rwystr yw gormod o gyfoeth ond mae'r rhan fwyaf o
Gristnogion yn dewis anwybyddu hynny.

Hyd yn oed heddiw, mi gewch chi ambell efengylwr, mewn
gwledydd fel Korea a'r Unol Daleithiau, yn awgrymu fod Duw'n
gwobrwyo pobol dda trwy roi arian a chyfoeth iddynt nhw.

Waeth beth ddywed Christie Davies, all Undodiaid ddim
derbyn hynna. Mae rheswm yn dweud bod rhannu'n gymharol
deg yn well na rhoi llawer i ychydig. Ac nid jôc ydi hynna
chwaith.

Concro Kilimanjaro i godi arian at elusen



Hywel ar ei ffordd i fyny gyda chopa Kilimanjaro yn y cefndir

Mae Hywel Roderick, sy'n aelod yng Nghapel Brondeifi, Llanbed, newydd ddychwelyd o Affrica ar ôl dringo mynydd Kilimanjaro yn Tanzania i godi arian at elusen ganser.

Mae dringo Kilimanjaro yn dipyn o dasg, a dweud y lleiaf. Dyma'r mynydd ucha' ar gyfandir Affrica, ac mae'r daith i'r copa yn 5,895 metr neu'n 19,341 troedfedd. Mae'n cael ei gydnabod bod angen tri pheth penodol i gyrraedd brig y mynydd - lefel uchel o ffitrwydd, ymdrech fawr ac agwedd benderfynol. Hyd yma mae Hywel wedi llwyddo i godi dros £1,500 ar gyfer elusen Macmillan.

"Mae'r ymateb wedi bod yn anhygoel," meddai Hywel, sy'n ddirprwy bennaeth Ysgol Gynradd Aberporth. "Mae pobl wedi bod yn arbennig o hael, chwarae teg."

Mae'r gronfa ar gyfer derbyn cyfraniadau yn dal ar agor am beth amser eto. Gallwch anfon cyfraniad drwy'r post at Hywel Roderick; 89, Heol y Gogledd; Aberteifi; Ceredigion; SA43 1LT.



Hywel (ar y chwith) a dau o'i gyd-ddringwyr ar gopa Kilimanjaro

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ioan Wyn Evans ar gael ei benodi i Gyngor Cynulleidfa Cymru gan Ymddiriedolaeth y BBC yn Llundain. Mae'r penodiad am dair blynedd. Y Gyngor sy'n gyfrifol am asesu ac adrodd ar berfformiad y BBC yng Nghymru a cheisio sicrhau fod talwyr trwydded yn cael gwerth am arian.

DIOLCH I NODDWYR Y RHIFYN YMA

J&E Woodwork
Asiedwyr/Seiri Coed
Barley Mow, Llanbed
01570 422141

Bara Gwalia, Llanybydder
Bara heb ei debyg
01570 480465

Eleri Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
Cartrefle, Stryd y Bont
Castellnewydd Emlyn
01239 710942

Gwesty'r Porth, Llandysul
Ar gyfer achlysuron o bob math
01559 362202

Cwmni Tristar
Esgairgoch, Ffarmers
Gwerthwyr Iorïau a cheirt ceffylau
01570 422250

Siop y Smotyn Du
Y Stryd Fawr, Llanbed
Cardiau, llyfrau, CD's a mwy...
01570 422587

Cenfil Reeves
Ymgwymerwr Angladdau
Garreg Wen
Talgarreg
01545 590254

Gwesty'r Boars Head
Caerfyrddin
Llety, bwyd, priodasau a mwy
01267 222789

S.R. Thomas a Huw Thomas
Trydanwyr
Beehive Radio, Stryd Fawr, Llanbed
01570 422736

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
19, Stryd y Coleg, Llanbed
01570 423300

Glyn Phillips
Saer Coed ac Asiedydd
Eirglyn, Cilcennin
01570 470176 / 07775 694243

Teifi Forge Cyf, Cwmann
Peiriannwyr Amaethyddol
Weldio symudol o bob math
01570 422240

Lyn Rees,
Peintwr ac Addurnwr
New Inn, Pencader
01559 384538

Carafanau 3A
Pencader
01559 384232

Dai Lewis, Arwerthwr
Llandysul a Chastellnewydd Emlyn
01559 363401 / 01239 710482

Golygydd Yr Ymfynnydd yw
Ioan Wyn Evans.

Rhif ffôn:

01267 233690

E-bost:

ioanwyn_gwenllian@hotmail.com